Department for Digital,
Culture, Media and Sport

Yr Adran dros Ddigidol,
Diwylliant, y Cyfryngau a
Chwaraeon

# Cynllun Gweithredu Digwyddiadau Busnes Rhyngwladol Llywodraeth y DU

2019-2025

Gallwn hefyd ddarparu dogfennau i
ddiwallu'r gofynion penodol ar gyfer pobl ag
anableddau. E-bostiwch enquiries@culture.gov.uk

Yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu
© Hawlfraint y Goron 2019

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/ neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.
Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon atom yn
enquiries@culture.gov.uk

# Cynnwys

**Rhagair y Gweinidog** 4

**Rhagair gan Fwrdd y Diwydiant Digwyddiadau** 5

**1. Crynodeb Gweithredol** 6

**2. Llywodraeth y DU a Digwyddiadau Busnes** 7

**3. Pa Ddigwyddiadau y bydd Llywodraeth y DU yn eu Cefnogi?** 10

**4. Cynnig Cymorth Llywodraeth y DU** 12

Eiriolaeth y Llywodraeth 12
Cymorth Ariannol 13
Marchnata a Hyrwyddo Cyrchfannau 14
Cyraeddiadau a Chroesawu 14
Gallu a Chysylltedd 15
Cydlynu gan y Llywodraeth 16

**5. Camau** 17

# Rhagair gan Rebecca Pow

## Y Gweinidog dros y Celfyddydau, Treftadaeth a Thwristiaeth



Mae'r DU yn lle gwych i gynnal digwyddiadau busnes. Mae gan y DU leoliadau cyfarfod eithriadol gan gynnwys y National Exhibition Centre [Ganolfan Arddangosfeydd Genedlaethol] yn Birmingham, y Ganolfan Gonfensiynau Ryngwladol yn Belfast, Campws Digwyddiadau'r Alban yn Glasgow, a'r Ganolfan Confensiynau Ryngwladol newydd yng Nghasnewydd. Mae hefyd yn cynnwys canolfannau treftadaeth a gwestai unigryw sydd heb eu hail.

Mae digwyddiadau busnes yn dod â manteision economaidd a chymdeithasol sylweddol i'r DU. Ymwelwyr busnes oedd yn gyfrifol am bron i chwarter yr holl ymweliadau rhyngwladol yn 2018 – cyfanswm o 8.4 miliwn o ymweliadau – gyda chynrychiolwyr yn gwario £4.5bn tra'u bod yma. Mae bron i hanner y rhai hynny sy'n dod yma ar fusnes yn dychwelyd fel ymwelwyr hamdden yn ddiweddarach – yn aml yn dod â theulu a ffrindiau gyda nhw.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fwyafu'r cyfleoedd a gyflwynir i'r DU gan ddigwyddiadau busnes. Mae'n rhan hanfodol o ddiwydiant twristiaeth y DU. Rydym hefyd yn ystyried bod cynadleddau ac arddangosfeydd yn gyfleoedd sylweddol i ehangu economi masnach, allforion a gwybodaeth y DU a denu mewnfuddsoddiad.

Dyna pam yn 2015 y gwnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Ymweliadau Busnes a Digwyddiadau, a oedd yn amlinellu sut y byddai Llywodraeth y DU yn dod ag ymagwedd fwy cydlynol ac wedi'i dargedu at gefnogi digwyddiadau busnes. Fe wnaethom sefydlu Bwrdd y Diwydiant Digwyddiadau i'n cynghori ar y ffordd orau ymlaen. Fe wnaethom greu'r Rhaglen Twf Digwyddiadau Busnes GREAT, y mae *VisitBritain* yn ei defnyddio i ddarparu cymorth ariannol i gyrchfannau wrth ddenu cynigion a chynyddu nifer y cynrychiolwyr rhyngwladol. Ac, rydym yn gweithio mewn ymgynghoriad â'r Gweinyddiaethau Datganoledig i gefnogi gweithgarwch digwyddiadau busnes ym mhob rhan o'r DU.

Ond wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, mae cyfle i fynd â'n cefnogaeth i'r lefel nesaf er mwyn aros yn gystadleuol a gwneud yn glir ein bod yn parhau i fod yn gwbl agored i fusnes.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cyflwyno pa gamau pellach y bydd Llywodraeth y DU yn eu cymryd i greu, denu, tyfu a chadw digwyddiadau busnes rhyngwladol. Trwy greu'r ymagwedd gref, gydlynol, traws-Lywodraethol hon, gyda chefnogaeth a chymorth gan y diwydiant, gall y DU gynnal ei safle fel cenedl Ewropeaidd flaenllaw ar gyfer cynnal digwyddiadau.

**Rebecca Pow**

Y Gweinidog dros y Celfyddydau, Treftadaeth a Thwristiaeth

# Rhagair gan Fwrdd y Diwydiant Digwyddiadau



## Cyfle byd-eang i gynnal digwyddiadau busnes GREAT ledled y DU

Mae Bwrdd y Diwydiant Digwyddiadau yn croesawu cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu hwn. Mae'n gadarnhad cryf gan Lywodraeth y DU o rym digwyddiadau busnes. Mae digwyddiadau o'r fath yn arddangos sectorau economaidd allweddol y DU, ei chreadigrwydd a'i harloesedd a'i henw da rhyngwladol am alluogi a lledaenu ymchwil feddygol a gwyddonol ac addysg uwch. Mae hyn yn ei dro yn cynyddu masnach, allforion a mewnfuddsoddi ac yn rhoi proffil uwch i'r wlad ar y llwyfan rhyngwladol.

Mae'r DU bob amser wedi bod yn gyrchfan o'r radd flaenaf ar gyfer digwyddiadau busnes. Mae ganddi ôl troed byd-eang ac mae'n hygyrch iawn. Mae'n meddu ar arbenigedd proffesiynol digyffelyb o ran llwyfannu a threfnu. Mae ganddi amrywiaeth gyfoethog o leoliadau digwyddiadau, llawer ohonynt yn unigryw eu cymeriad, gyda buddsoddiad ychwanegol sylweddol yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn eiddo newydd a phresennol.

Nid yw'r gystadleuaeth i ddenu digwyddiadau busnes rhyngwladol erioed wedi bod yn fwy dwys. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn dilyn adolygiad manwl o sefyllfa gystadleuol y DU. Mae'n cynnig mentrau a fydd yn galluogi'r DU i gynnal ei safle fel gwlad Ewropeaidd flaenllaw ar gyfer cynnal digwyddiadau, cynadleddau, cyngresau ac arddangosfeydd busnes.

Yr allwedd i'r Cynllun Gweithredu hwn yw cydweithio – rhwng y diwydiant, adrannau eraill Llywodraeth y DU, *VisitBritain*, y Gweinyddiaethau Datganoledig, sefydliadau'r diwydiant cyrchfannau a digwyddiadau – i sicrhau bod y DU yn ennill busnes newydd ac yn ychwanegu at weithgareddau presennol, tra'n darparu amgylchedd mwy cystadleuol ar gyfer y rhai hynny sydd eisoes yn cynnal eu digwyddiadau yma.

Rydym yn ffodus i gael ein cefnogi gan y rhaglen GREAT, sy'n hyrwyddo gwerthoedd cynhenid y DU fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer twristiaeth, masnach, buddsoddi ac addysg.

Bydd cael cefnogaeth gyflawn i'r cynlluniau hyn yn rhan o waith Bwrdd y Diwydiant Digwyddiadau. Nid yn unig trwy godi proffil digwyddiadau busnes o fewn Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU, ond trwy hyrwyddo'r gwerth sy'n deillio ohonynt i bob cymuned. Byddwn hefyd yn sicrhau bod neges cryfderau datblygedig y DU wrth groesawu digwyddiad busnes rhyngwladol yn cael ei chyflwyno i farchnad fyd-eang.

Mae'r rhain yn amseroedd cyffrous ar gyfer digwyddiadau busnes sy'n tyfu yn y DU. Mae gennym gyfle byd-eang i gynnal mwy o ddigwyddiadau busnes GREAT am flynyddoedd lawer. Mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen at gyflawni'r her hon.

**Michael Hirst OBE**
Cadeirydd - Bwrdd y Diwydiant Digwyddiadau

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae Llywodraeth y DU am gynnal ei safle fel gwlad Ewropeaidd flaenllaw ar gyfer cynnal digwyddiadau, cynadleddau a chyngresau busnes. I wneud hyn, rydym am helpu i greu digwyddiadau busnes rhyngwladol newydd, denu mwy o ddigwyddiadau presennol i'r DU, tyfu ein digwyddiadau sydd eisoes yn llwyddiannus a chadw'r rhai hynny a allai fod yn ystyried gadael.

1.2 Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Strategaeth Ymweliadau a Digwyddiadau Busnes[1], a oedd yn amlinellu sut yr oedd yn bwriadu helpu i dyfu'r Diwydiant Digwyddiadau Busnes yn y DU. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn gweithredu fel diweddariad i'r strategaeth honno, gan nodi'n fanylach gynnig Llywodraeth y DU o gefnogaeth i'r diwydiant. Mae'r cynnig hwn wedi'i lywio gan ein profiad o weithredu'r strategaeth hyd yn hyn, yn arbennig cyngor arbenigwyr sy'n eistedd ar Fwrdd y Diwydiant Digwyddiadau ac ymchwil gan *VisitBritain* ar yr hyn sy'n cymell trefnwyr digwyddiadau rhyngwladol i ddewis cyrchfan ar gyfer eu digwyddiad. Mae cynnig cymorth Llywodraeth y DU yn berthnasol i leoliadau ledled y DU, ac mae wedi'i gynllunio i ategu gwaith parhaus o fewn y Gweinyddiaethau Datganoledig.

1.3 Mae'r Cynllun Gweithredu yn rhestru set o feini prawf y bydd angen i ddigwyddiadau eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth Llywodraeth y DU. Mae hyn yn cynnwys meini prawf ar y nifer lleiaf o gynrychiolwyr a chyfran y rhai hynny sy'n teithio o dramor. Yna mae'n amlinellu cynnig cymorth Llywodraeth y DU ar draws nifer o feysydd. Mae'r camau allweddol yn cynnwys:

a. Eiriolaeth y Llywodraeth – Cynigir pecyn eiriolaeth cynhwysfawr – yn amrywio o Weinidogion a fydd ar gael i ysgrifennu llythyrau o gefnogaeth er mwyn helpu i wneud cais am ddigwyddiadau i gynigion i gynnal cynadleddwyr mewn eiddo hanesyddol y Llywodraeth;

b. Cymorth ariannol – Byddwn yn parhau i ariannu'r Rhaglen Twf Digwyddiadau Busnes dan arweiniad *VisitBritain*,[2] ac yn ystyried cyfleoedd i'w ehangu, yn arbennig lle nodir bod digwyddiadau busnes yn hanfodol i gyflawni amcanion sector economaidd allweddol y DU; a,

c. Chyraeddiadau a chroesawu – Bydd Llu'r Ffin a UK Visas a Mewnfudo yn cynnig cymorth perthnasol i gynrychiolwyr.

1.4 Trwy weithredu'r Cynllun Gweithredu hwn, mae Llywodraeth y DU yn gobeithio cyflawni newid sylweddol yn ei chymorth i'r diwydiant, fel ei bod mewn sefyllfa well i ddenu digwyddiadau busnes rhyngwladol i'r DU. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun Gweithredu hwn yn derfynol. Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn gwerthuso'n barhaus yr effaith rydym yn ei chael, er mwyn mireinio ein hymagwedd a gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'n hadnoddau.

[1] https://www.gov.uk/government/publications/business-visits-and-events-strategy

[2] Mae'r Rhaglen Twf Digwyddiadau Busnes ar gael i sefydliadau o bob rhan o'r DU ac fe'i hariennir gan ymgyrch GREAT yr Adran dros Fasnach Ryngwladol.

# 2. Gweledigaeth Llywodraeth y DU ar gyfer Digwyddiadau Busnes

## Cefndir

2.1 Mae gan y DU sector digwyddiadau busnes ffyniannus eisoes. Mae'r diwydiant yn amcangyfrif ei fod yn dod ag oddeutu £32.6 biliwn y flwyddyn i economi'r DU ar hyn o bryd.[3] Yn 2017 fe wnaeth y DU groesawu 8.8 miliwn o ymweliadau busnes a chynnal 592 o gyfarfodydd cymdeithas ryngwladol, gydag ymwelwyr yn gwario £5.3 biliwn.[4] Amcangyfrifir bod aelodau teulu a ffrindiau sy'n dod gyda chynrychiolwyr ac arddangoswyr digwyddiadau yn gwario swm ychwanegol o £7.7 biliwn y flwyddyn yn ystod eu harhosiad ac amcangyfrifir yn geidwadol bod y fasnach a drafodir ac a hwylusir mewn arddangosfeydd a digwyddiadau busnes yn werth dros £150 biliwn y flwyddyn.[5]

2.2 Mae rhagor, fodd bynnag, y gallwn ei wneud. Ar hyn o bryd dim ond 44% o leoliadau yn y DU sy'n targedu cynadleddau rhyngwladol, ond mae bron i ddwy ran o dair o'r rhai hynny nad ydynt yn targedu cynadleddau rhyngwladol wedi nodi bod ganddynt ddiddordeb mewn gwneud hynny yn y dyfodol.[6] Ac ar hyn o bryd, dim ond 38% o ymweliadau â chynadleddau ac arddangosfeydd yn 2016 a gynhaliwyd y tu allan i Lundain.[7]

2.3 Mae nifer uwch o gyrchfannau byd-eang yn cydnabod gwerth y sector. Rhwng 2011 a 2017, er enghraifft, adeiladwyd 1.62 miliwn o fetrau sgwâr o ofod arddangos yn ardal Asia-y Pasiffig, sef cynnydd o 24.4%.[8] Mae'r gystadleuaeth yn ffyrnig ac mae angen i'r DU gadw i fyny.

2.4 Mae digwyddiadau busnes yn cyfrannu at nifer o flaenoriaethau polisi ac amcanion strategol presennol y llywodraeth. Er enghraifft, mae digwyddiadau busnes yn cefnogi'r Strategaeth Ddiwydiannol trwy annog masnach a mewnfuddsoddi, meithrin sectorau blaenllaw yn y byd a chefnogi busnesau i ddechrau a thyfu. Maent yn cefnogi amcanion masnach Llywodraeth y DU trwy gysylltu â sectorau allweddol a nodwyd gan yr Adran Masnach Ryngwladol.

2.5 Mae Llywodraeth y DU am gynnal ei safle fel gwlad Ewropeaidd flaenllaw ar gyfer cynnal digwyddiadau, cynadleddau a chyngresau busnes. Mae Llywodraeth y DU am helpu i **greu** digwyddiadau busnes rhyngwladol newydd, **denu** mwy o ddigwyddiadau presennol i'r DU, **tyfu** ein digwyddiadau sydd eisoes yn llwyddiannus a **chadw'r** rhai a allai fod yn ystyried gadael.

2.6 Bydd cyflawni'r weledigaeth hon yn helpu i greu twf a ffyniant trwy:

a. Effaith economaidd uniongyrchol ymwelwyr busnes rhyngwladol yn gwario arian yn ystod eu harhosiad;

b. Ymweliadau dychwelyd gan ymwelwyr busnes sy'n penderfynu dychwelyd i'r DU yn ddiweddarach gyda ffrindiau a theuluoedd, neu sy'n ymestyn eu hymweliad i dreulio amser gyda'u ffrindiau/teuluoedd yn y lleoliad;

c. Denu penderfynwyr diwydiant, academyddion ac arloeswyr allweddol i'r DU;

---

[3] Cyfleoedd ar gyfer Twf Byd-eang ym Mhartneriaeth Sector Digwyddiadau, Ymweliadau a Digwyddiadau Busnes y DU 2016

[4] Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2017

[5] Cyfleoedd ar gyfer Twf Byd-eang ym Mhartneriaeth Sector Digwyddiadau, Ymweliadau a Digwyddiadau Busnes y DU 2016

[6] Arolwg Cynadleddau a Chyfarfodydd UKCAMS 2018, tud. 20

[7] Deall Ymweliadau Busnes, rhifyn rhagddarbodaeth 153, *VisitBritain* 2016

[8] Map y Byd o Leoliadau Cynadleddau, UFI: Cymdeithas Fyd-eang y Diwydiant Arddangosfeydd, 2017, tud. 7

d. Hwyluso lledaenu gwybodaeth ac ymchwilio'n fwy a dangos cynnyrch a gwasanaethau Prydeinig;
e. Cynyddu cyfleoedd ar gyfer allforion a mewnfuddsoddi ar gyfer busnesau yn y DU yn ogystal â chynnal busnes ar raddfa ryngwladol; a,
f. Gwella ffyniant rhanbarthol ac ymdeimlad o leoliad trwy greu ymagwedd sy'n ystyried holl ranbarthau a chenhedloedd y DU.

## Gweithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig

2.7 Mae hwn yn gynllun gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi dylunio'r Cynllun Gweithredu i ategu gwaith pob Gweinyddiaeth Ddatganoledig, lle mae'n briodol, a bydd yn parhau i ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar waith yn y dyfodol, lle mae'n briodol. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan ym Mwrdd y Diwydiant Digwyddiadau, y mae gan bob Gweinyddiaeth Ddatganoledig gynrychiolydd arno. Mae pob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn ymgymryd â gwaith pwysig ar ddigwyddiadau busnes ar hyn o bryd.

2.8 Yng Ngogledd Iwerddon, mae Twristiaeth Gogledd Iwerddon yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i hyrwyddo Gogledd Iwerddon fel cyrchfan ddeniadol ar gyfer digwyddiadau busnes, trwy ddarparu cymorth ar y cam ymgeisio, cymorth marchnata, a chydlynu cymorth o fath arall. Mae gweithgarwch yn cynnwys ymchwil i'r farchnad, datblygu diwydiant a chynnyrch, cysylltiadau cyhoeddus, marchnata digidol, mynychu sioeau masnach, a chymorth ymarferol i ymweliadau safle. Hefyd mae gan Belfast a Gogledd Iwerddon Raglen Llysgenhadon sydd wedi'i hen sefydlu, sy'n cyd-fynd â'u sectorau blaenoriaeth, a chronfa cymhorthdal cynadleddau. Mae digwyddiadau busnes yn cyflwyno cyfle pwysig i Ogledd Iwerddon, ac felly mae croeso mawr i'r cymorth a gynhwysir yn y cynllun gweithredu.

2.9 Yn yr Alban, Digwyddiadau Busnes *VisitScotland* (VSBE) yw'r asiantaeth arweiniol ar gyfer marchnata, lleoli a hyrwyddo'r Alban fel cyrchfan ar gyfer Digwyddiadau Busnes. Mae'n cynorthwyo diwydiant ac academia yn yr Alban i ennill digwyddiadau busnes sy'n cyd-fynd â chymwysterau ac uchelgeisiau'r Alban, gan ganolbwyntio ar ddigwyddiadau peripatetig sy'n dod o'r tu allan i'r Alban, gan gynnwys gweddill y DU. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys cenadaethau gwerthu, penodiadau ochr y ddesg, cynrychiolaeth gwerthiannau a chysylltiadau cyhoeddus ym marchnadoedd mawr UDA, Canada, yr Almaen, Ffrainc a Sbaen, mynediad at Weinidogion, presenoldeb o dan frand yr Alban mewn sioeau masnach mawr a chymorth meddal neu galed ar sail ad-hoc. Mae gwaith VSBE wedi'i gynllunio i ychwanegu gwerth at y gweithgarwch presennol a wneir ar lefelau dinas, rhanbarth a lleoliad.

2.10 Yng Nghymru, mae gan Croeso Cymru dîm sydd yn datblygu ac yn hyrwyddo'r wlad yn y marchnadoedd Cyfarfodydd, Cymhellion, Cynadleddau ac Arddangosfeydd (MICE)/Cymdeithasau/Corfforaethol, a hwy yw'r asiantaeth arweiniol ar gyfer hwyluso a chefnogi diwydiant ac academia Cymru i ennill digwyddiadau busnes. Mae'r ffocws ar gyflwyno Cymru fel cyrchfan hyfyw, heriol ar gyfer digwyddiadau busnes. Mae digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n cyd-fynd â marchnadoedd blaenoriaeth Croeso Cymru o fewn cwmpas. Mae gweithgareddau'n cynnwys cenadaethau gwerthu, cynrychiolaeth cysylltiadau cyhoeddus, cyfarfodydd ac apwyntiadau un i un, ymweliadau ymgyfarwyddo wedi'u trefnu i brynwyr, presenoldeb o dan frand Cymru mewn sioeau masnach allweddol, ymgysylltu â'r diwydiant a datblygu cynnyrch. Mae'r gwaith yn cyd-fynd yn strategol â thargedau mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru.

## Datblygu ein strategaeth

2.11 Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Strategaeth Ymweliadau a Digwyddiadau Busnes[10], a oedd yn amlinellu sut oedd Llywodraeth y DU yn bwriadu helpu i dyfu'r diwydiant Digwyddiadau Busnes yn y DU. Roedd y strategaeth yn nodi, er bod Llywodraeth y DU wedi darparu cymorth ar wahân i ddigwyddiadau busnes, ei bod heb wneud hynny ar sail strategol, gyffredinol. Roedd y strategaeth wreiddiol yn nodi mai dim ond ‘dechrau rhaglen waith i sicrhau bod y DU mewn sefyllfa well i ddenu, sicrhau a datblygu ymweliadau a digwyddiadau busnes’ oedd hi.

[10] https://www.gov.uk/government/publications/business-visits-and-events-strategy

2.12 Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn rhoi diweddariad i'r strategaeth honno, trwy gyflwyno'n fanylach gynnig cadarn gan Lywodraeth y DU o gymorth i'r Diwydiant Digwyddiadau Busnes. Mae'r cynnig hwn wedi'i lywio gan ein profiad o'r strategaeth hyd yn hyn, yn arbennig cyngor arbenigwyr sy'n eistedd ar Fwrdd y Diwydiant Digwyddiadau a thrwy ymchwil gan *VisitBritain* ar yr hyn sy'n cymell trefnwyr digwyddiadau i ddewis cyrchfan.[11] Wrth ddatblygu'r gwaith hwn, mae swyddogion a Gweinidogion hefyd wedi ymgysylltu â Chyngor y Diwydiant Twristiaeth, y Bartneriaeth Ymweliadau a Digwyddiadau Busnes ac maent hefyd wedi mynychu cyfarfodydd bord gron gyda threfnwyr arddangosfeydd, trefnwyr cyngresau, gwestywyr a phrynwyr rhyngwladol.

2.13 Fe gaiff y Cynllun Gweithredu ei gyflenwi gan Lywodraeth y DU, dan arweiniad yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Adrannau perthnasol eraill Llywodraeth y DU. Fe gaiff ei gefnogi gan *VisitBritain* a Bwrdd y Diwydiant Digwyddiadau. Byddwn yn parhau i ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig, adrannau eraill Llywodraeth y DU a'r diwydiant ehangach, lle mae'n briodol.

## Ymchwil VisitBritain

2.14 Mae ymchwil VisitBritain yn amlinellu'r ffactorau y mae trefnwyr digwyddiadau yn ystyried eu bod yn bwysig yn y broses o wneud penderfyniadau. Yn yr ymchwil, gofynnwyd i 300 o gyfranogwyr raddio pum dinas ar dri ffactor ynghylch gwneud penderfyniadau sydd bwysicaf iddynt wrth benderfynu pa leoliad i ddod â'u digwyddiad iddo. Yna gofynnwyd i'r cyfranogwyr hyn gymharu dinasoedd y DU a'r UE yn y categorïau hyn ynghylch gwneud penderfyniadau. Amlygodd yr ymchwil wahaniaethau sylweddol o ran atyniad rhwng prif ddinasoedd y DU, ei rhanbarthau, a dinasoedd Ewropeaidd eraill.

2.15 Fel y'i gwelir o'r tabl isod, mae Llundain yn sgorio'n uchel mewn nifer o feysydd (e.e. apêl cyrchfan, rhwyddineb mynediad) tra bod dinasoedd eraill y DU (e.e. Birmingham a Chaerdydd) heb sgorio cystal yn erbyn cystadleuwyr Ewropeaidd, gan ddangos ymwybyddiaeth ac apêl gyffredinol isel. Nid yw dinasoedd ledled y DU yn perfformio cystal ar werth am arian.

**Tabl 1: Gradd (sgôr gymedrig allan o 5) Dinasoedd a Chystadleuwyr Prydain ar gyfer Cynadleddau a Chyfarfodydd**

| Cyrchfan | Rhwyddineb mynediad | Addasrwydd lleoliadau | Gwerth am arian | Apêl y gyrchfan | Ansawdd llety |
|---|---|---|---|---|---|
| Llundain | 4.7 | 4.5 | 2.6 | 4.5 | 4.4 |
| Caeredin | 3.6 | 4.1 | 3.3 | 4.1 | 4.2 |
| Glasgow | 3.2 | * | * | 3.8 | * |
| Manceinion | 4.0 | 4.1 | 3.6 | 3.1 | * |
| Birmingham | 3.9 | 4.4 | * | 3.3 | 3.5 |
| Paris | 4.6 | 4.5 | 3.0 | 4.3 | 4.2 |
| Barcelona | 4.3 | 4.4 | 4.2 | 4.3 | 4.3 |
| Berlin | 4.4 | 4.4 | 4.1 | 3.8 | 4.3 |
| Dulyn | 4.0 | 3.8 | 3.7 | 3.9 | 4.2 |

*maint y sampl yn annigonol

[11] *Gwneud Penderfyniadau ynghylch Cyrchfannau, Cymhellion a Rhwystrau*, Ymchwil a Mewnwelediad Strategol, 2017

# 3. Pa Ddigwyddiadau fydd Llywodraeth y DU yn eu Cefnogi?

3.1 Mae'r DU yn cynnal miloedd o ddigwyddiadau, cynadleddau, cyfarfodydd, confensiynau, arddangosfeydd, cyngresau, sioeau, gwyliau bob blwyddyn, gyda lefelau amrywiol o gynrychiolwyr ac effaith economaidd. Ni all Llywodraeth y DU roi cymorth uniongyrchol iddynt i gyd, ond gallwn dargedu ein cymorth mewn meysydd lle gellir gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

3.2 Mae Llywodraeth y DU wedi creu set o feini prawf ar gyfer nodi digwyddiadau busnes presennol y gallai'r Llywodraeth eu cefnogi. Rydym wedi cynhyrchu meini prawf ar wahân ar gyfer **denu** digwyddiadau i'r DU, **tyfu** digwyddiadau presennol a **chreu** rhai newydd. Nodir y rhain isod. Efallai y bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu cefnogi digwyddiadau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf fesul achos. Ar gyfer **cadw** digwyddiadau, byddwn yn ceisio cadw pob un sy'n ystyried gadael.

## Denu digwyddiadau i'r DU

3.3 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cynnig cymorth Llywodraeth y DU, yn ddelfrydol dylai digwyddiad::

a. Tynnu o leiaf 50% o gynrychiolwyr o dramor;
b. Denu o leiaf 300 o gynrychiolwyr;
c. Peidio â disodli digwyddiadau rhyngwladol presennol yn y DU;
d. Cyflwyno cyfleoedd posibl i greu digwyddiadau ymylol yn ogystal â'r prif ddigwyddiad, er mwyn ymestyn yr amser y mae cynrychiolwyr yn aros;
e. Bod yn un o'r sectorau a nodwyd gan yr Adran Masnach Ryngwladol a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel rhan allweddol o ddatblygiad y Diwydiant Digwyddiadau Busnes; [13]
f. Cysylltu'n agos ag un neu fwy o'r pedair Her Fawr a nodwyd yn y Strategaeth Ddiwydiannol;[14] a,
g. Gallu denu mewnfuddsoddiad i fusnesau yn y DU.

3.4 Hefyd dylai digwyddiadau arddangos cyfranogiad a chymorth gweithredol partneriaid lleol, cenedlaethol a rhanbarthol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Sefydliadau Rheoli Cyrchfannau, canolfannau lleoliadau/cynadleddau, yr Awdurdod Lleol a/neu bartner cyflenwi economaidd isranbarthol arall, a'r Gweinyddiaethau Datganoledig lle mae'n briodol. Rhaid sicrhau diwydrwydd dyladwy priodol ar y digwyddiad, er mwyn sicrhau bod y trefnwyr yn gweithredu'n deg ac yn dryloyw.

3.5 Mae Llywodraeth y DU yn arbennig o awyddus i gael digwyddiadau sydd yn gwella enw da neu effaith academia'r DU, yn annog rhannu gwybodaeth ac yn dod ag arweinwyr barn allweddol o'u meysydd i'r DU.

[12]Mae'r rhestr gyfredol o sectorau blaenoriaethol ar gyfer Llywodraeth y DU yn cynnwys: Gweithgynhyrchu Datblygedig, Awyrofod, Modurol, BioEconomi, Defnyddwyr, Creadigol, Addysg, Ynni, Peirianneg, Gwasanaethau Ariannol, Bwyd a Diod, Iechyd a Gwyddorau Bywyd, Seilwaith, Morol, Gofod, Chwaraeon, Dinasoedd Clyfar a Thechnoleg. Hefyd yn berthnasol mae blaenoriaethau polisi'r Strategaeth Ddiwydiannol (e.e. ymchwil a datblygu) a Heriau Mawr (e.e. y Gymdeithas sy'n Heneiddio).
[13] Gweler https://www.gov.uk/government/publications/industrial-strategy-the-grand-challenges/industrial-strategy-the-grand-challenges. Yr Heriau Mawr yw Cudd-wybodaeth Artiffisial a data, y gymdeithas sy'n heneiddio, twf glân a dyfodol symudedd.

## Tyfu digwyddiadau presennol

3.6 Er bod anelu at ennill digwyddiadau presennol sydd â hanes o lwyddiant yn ymagwedd ddarbodus, mae nifer cyfyngedig o ddigwyddiadau a all ddod i'r DU bob blwyddyn yn ymarferol oherwydd cyfyngiadau capasiti a'r ffaith nad yw llawer o ddigwyddiadau yn beripatetig ac nad ydynt yn symud o'u cyrchfan wreiddiol ddewisol ar ôl eu sefydlu. Felly, bydd cynnig cymorth Llywodraeth y DU hefyd yn berthnasol i dyfu digwyddiadau presennol y DU er mwyn denu mwy o fusnesau a chynrychiolwyr rhyngwladol. Dyma lle mae Bwrdd y Diwydiant Digwyddiadau o'r farn bod y cyfleoedd mwyaf yn bodoli.

3.7 Ar gyfer tyfu digwyddiadau, byddwn yn defnyddio'r un meini prawf ar gyfer denu digwyddiadau i raddau helaeth, er y bydd angen i'r isafswm o 300 o gynadleddwyr a thargedau rhyngwladol o 50% fod yn uchelgeisiau realistig i'r cynigydd yn hytrach na'r ffigurau presennol.

3.8 Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn, bydd angen i ni fabwysiadu ymagwedd hynod ragweithiol, gan nodi'r digwyddiadau presennol sy'n bodloni ein meini prawf ac yna cysylltu â threfnwyr i drafod dulliau o'u cefnogi i dyfu. Gallai'r rhain fod yn ddigwyddiadau domestig yn unig â'r potensial i ddenu cynulleidfa ryngwladol neu ddigwyddiadau rhyngwladol a gynhelir ym Mhrydain a all dyfu eu proffil rhyngwladol ymhellach.

## Creu digwyddiadau newydd

3.9 Gellid diwallu neu wella amcanion allweddol Llywodraeth y DU, megis y rhai a nodir yn y Strategaeth Ddiwydiannol trwy greu digwyddiadau busnes newydd. Felly, bydd Llywodraeth y DU yn gweithio ar draws y llywodraeth, gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig ac mewn partneriaeth â rhanddeiliaid cyhoeddus a phreifat eraill, i gefnogi creu digwyddiadau busnes newydd. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau a noddir/a drefnir gan Lywodraeth y DU fel yr Ŵyl Fusnes Ryngwladol neu'r Uwchgynhadledd Anabledd Byd-eang.

3.10 Fodd bynnag, mae creu digwyddiadau newydd yn fuddsoddiad sylweddol i Lywodraeth y DU a byddai angen ystyried pob digwyddiad yn ôl ei achos busnes ei hun.

# 4. Cynnig Cymorth Llywodraeth y DU

4.1 Mae'r adran hon yn amlinellu cynnig cymorth Llywodraeth y DU i ddigwyddiadau busnes sy'n bodloni'r meini prawf a amlinellir uchod. Mae'r cynnig hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil presennol ac ymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid gan Lywodraeth y DU a Bwrdd y Diwydiant Digwyddiadau. Bydd yr union gymysgedd o gymorth a gynigir yn amrywio gan ddibynnu ar anghenion penodol y digwyddiad. Ni fydd angen cymorth â fisâu, er enghraifft, ar gyfer digwyddiadau lle daw cynrychiolwyr o wledydd nad oes arnynt angen fisâu i gael mynediad i'r DU. Rhennir y cynnig yn chwe gwahanol fath o gymorth:

a. Eiriolaeth Llywodraeth y DU;
b. Cymorth Ariannol;
c. Marchnata Cyrchfannau;
d. Cyraeddiadau a Chroesawu;
e. Capasiti a Chysylltedd;
f. Cydlynu gan y Llywodraeth.

## Eiriolaeth Llywodraeth y DU

4.2 Mae adroddiad 2011 ar Arferion Cymhorthdal yn nodi eiriolaeth Llywodraeth y DU fel un o'r ffyrdd y gallai'r DU gynyddu ei llwyddiant wrth wneud ceisiadau am ddigwyddiadau rhyngwladol, yn arbennig pan yw'r cynigion cyffredinol yn debyg.[14] Mae llawer o benderfynwyr yn ystyried eiriolaeth fel arwydd o ymrwymiad y llywodraeth berthnasol i gefnogi cyflwyno eu digwyddiad. Gallai datblygu ymagwedd fwy systematig at eiriolaeth y llywodraeth a chymorth gwleidyddol sicrhau mwy o ddigwyddiadau mawr. Gellir rhoi cymorth eiriolaeth ar bob cam o gylch oes digwyddiad – o wneud cais i gynnal.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud

4.3 Ar gyfer digwyddiadau sy'n diwallu'r meini prawf, bydd yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan weithio gyda *VisitBritain* a lle bo'n briodol gyda Gweinyddiaeth Ddatganoledig a chyrff rhanbarthol, yn cynnig:

a. Llythyrau neu fideos gweinidogol o gefnogaeth i gyd-fynd â chynigion neu groesawu trefnwyr i'r DU;
b. Gweinidogion neu uwch swyddogion yn mynychu ymweliadau â safleoedd;
c. Lle mae'n briodol, Gweinidogion neu uwch swyddogion yn siarad mewn digwyddiadau neu'n mynychu digwyddiadau;
d. Cymorth i ddod â siaradwyr dylanwadol i ddigwyddiadau; a,
e. Cynnal dirprwyaethau lle mae'n briodol, gan gynnwys mewn adeiladau hanesyddol y llywodraeth, a defnyddio eiddo sy'n eiddo i'r Llywodraeth ar gyfer derbyniadau/cyfarfodydd/ciniawau lle mae'n briodol ac yn bosibl.

4.4 Bydd yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gweithio gyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, yn ogystal â swyddfeydd tramor *VisitBritain* a'r Cyngor Prydeinig, i asesu pa ddefnydd y gellir ei wneud o rwydwaith tramor y DU wrth wella'r cynnig eiriolaeth.

4.5 Bydd *VisitBritain* a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn asesu, ar sail barhaus, effaith eiriolaeth y Llywodraeth er mwyn mireinio'r cynnig dros amser.

[14] Arferion Cymhorthdal a Chymorth Ceisiadau ar gyfer Cynadleddau a Digwyddiadau Rhyngwladol ym Mhrydain 2011 tud. 10

## Cymorth Ariannol

4.6 Mae *VisitBritain* wedi cynnal Rhaglen Cymorth Digwyddiadau ers 2016.[15] Gelwir hyn yn Rhaglen Twf Digwyddiadau Busnes erbyn hyn ac fe'i hariennir trwy grant blynyddol o'r rhaglen GREAT drwy'r Adran Masnach Ryngwladol. Mae'r rhaglen yn cefnogi denu a thyfu digwyddiadau busnes rhyngwladol sy'n cyd-fynd â sectorau blaenoriaethol y DU trwy ddarparu:

a. Cymorth ariannol – sy'n cynnwys rhoi grantiau i helpu i gefnogi gwneud cais (e.e. marchnata a gweithgarwch digidol) a chynyddu apêl digwyddiad i fynychwyr tramor. Yn gyffredinol, bydd y gronfa'n cynnig hyd at £20,000 i ymgeiswyr llwyddiannus; ac,

b. Eiriolaeth / cymorth meddal y Llywodraeth – sy'n cynnwys gweithio gyda phartneriaid ar draws Whitehall i ysgogi cefnogaeth y Gweinidog i'r digwyddiad, fel y'i nodir yn adran eiriolaeth y llywodraeth uchod.

4.7 Dyfarnodd y Rhaglen Twf Digwyddiadau Busnes bron i £755,000 yn ei thair blynedd gyntaf ar draws 38 o ddigwyddiadau, gyda llawer ohonynt yn adrodd am gynnydd gwerthfawr o ran mynychwyr rhyngwladol. Er enghraifft, roedd y rhaglen yn cefnogi UK Security Expo 2017 yn Llundain, gan arwain at gynnydd o 53% o ran mynychwyr rhyngwladol.[16]

4.8 Ar hyn o bryd, nid yw'r Rhaglen yn ariannu gweithgareddau 'gymhorthdal'. Yn gyffredinol, deallir bod cymhorthdal yn golygu darparu cymorth ariannol uniongyrchol i helpu i ennill a chyflwyno digwyddiadau. Mae'r mathau mwyaf cyffredin o gymhorthdal a ddarperir gan lywodraeth genedlaethol a rhanbarthol yn cynnwys cymhorthdal ariannol uniongyrchol, costau gostyngol ar gyfer llogi lleoliadau a chynnal digwyddiadau fel rhan o'r rhaglen ehangach.

4.9 Nododd adroddiad a gomisiynwyd gan y Bartneriaeth Ymweliadau a Digwyddiadau Busnes fod y DU, yn y gorffennol, wedi darparu cyllid a chymorth o fath arall a oedd yn gyfyngedig iawn er mwyn ennill digwyddiadau. Dywedodd oddeutu hanner yr 85 cyrchfan a arolygwyd (yn y DU ac yn rhyngwladol) eu bod wedi colli ceisiadau i gyrchfannau eraill oherwydd diffyg cyllid cymhorthdal. Dim ond 13% o gyrchfannau a ddywedodd nad oedd hyn yn broblem.[17]

4.10 Mae annog ymagwedd gydweithredol rhwng partneriaid sy'n ymwneud â gwneud cynnig am a chynnal digwyddiadau yn sicrhau y gall y gyrchfan gynnig 'pecyn' mwy cymhellol, strwythuredig i'r trefnwyr wrth wneud cais am ddigwyddiadau ac yn caniatáu i gynigwyr gyfleu'n fwy effeithiol y pecyn cymorth uniongyrchol ac ymarferol cyffredinol. Dylai hyn gynnwys cydweithredu rhwng y llywodraeth leol a rhanbarthol, sefydliadau rheoli cyrchfannau, darparwyr trafnidiaeth a llety yn ogystal â chefnogaeth y Maer (lle mae'n berthnasol). Mae Glasgow yn arbennig yn adnabyddus am eu hymagwedd gydweithredol. Mae 'Team Glasgow' yn cynnwys y *Scottish Event Campus (SEC)*, y *Glasgow City Marketing Bureau*, prifysgolion, lleoliadau, gwestai, bwytai, gwasanaethau, darparwyr trafnidiaeth, y llywodraeth leol a chenedlaethol sydd i gyd yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydlynol i ddarparu'r profiad gorau posibl i drefnwyr digwyddiadau ac ymwelwyr. Mae'r ymagwedd hon wedi annog digwyddiadau fel Cymdeithas Addysg Ryngwladol Ewrop i gael eu cynnal yn y SEC.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud

4.11 Mae *VisitBritain* wedi sicrhau cyllid gan GREAT ar gyfer y Rhaglen Twf Digwyddiadau Busnes yn 2019-2020.

4.12 Bydd y Rhaglen Twf Digwyddiadau Busnes yn ystyried maint a chwmpas y gronfa, yn ogystal â symud i ffwrdd o'r gylchred ariannu flynyddol i orwel amser hwy sy'n cyd-fynd yn well â'r amserau rhagarweiniol ar gyfer digwyddiadau busnes.

4.13 Fe wnaeth yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gomisiynu ymchwil allanol ar fater cyllid cymhorthdal i dalu costau cynnal digwyddiad a'i bwysigrwydd cymharol wrth ei gymharu â ffactorau eraill. Nid oedd cwmpas y prosiect ymchwil yn holl gynhwysfawr, a'i bwrpas oedd llywio penderfyniadau polisi. Cyhoeddwyd yr ymchwil ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu hwn a bydd ei ganfyddiadau'n cael eu hymgorffori mewn ystyriaethau parhaus ynghylch cymorth cymorthdal Llywodraeth y DU yn y dyfodol.

15 Gweler: https://www.visitbritain.org/business-events

16 Gellir gweld rhestr lawn o ymgeiswyr llwyddiannus yma: https://www.visitbritain.org/business-events-growth-programme-successful-applicants

[17] *Polisi Cymhorthdal ac arferion Cymorth Ceisiadau'r DU ar gyfer Cynadleddau a Digwyddiadau Rhyngwladol,* tud. 25 Sally Greenhill a Tony Rogers ar gyfer y Bartneriaeth Ymweliadau a Digwyddiadau Busnes.

## Marchnata a Hyrwyddo Cyrchfannau

4.14 Mae ymchwil yn dangos bod ymwybyddiaeth a gwybodaeth o lawer o gyrchfannau'r DU yn parhau i fod yn isel ymysg y rhai hynny sy'n chwilio am ddinasoedd cynnal ar gyfer eu digwyddiad busnes.[18] Mae'r ymchwil hefyd yn dangos nad oes gan lawer o gyrchfannau'r adnoddau i gyrraedd penderfynwyr rhyngwladol drostynt eu hunain.

4.15 Mae llywodraeth y DU hefyd yn awyddus i gyrchfannau fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag estyniadau i deithiau cynrychiolwyr. Fe ganfu ymchwil a gynhaliwyd gan *VisitBritain* fod cynrychiolwyr a estynnodd eu taith at ddibenion hamdden wedi gwario bron i £1000 yn fwy na phe na fyddent wedi ymestyn.[19] Mae estyniadau i deithiau hefyd yn rhoi cyfle i gyrchfannau nad ydynt yn adnabyddus am eu cynnig twristiaeth hamdden annog y rhai hynny sy'n ymweld ar gyfer digwyddiadau i aros yn hwy.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud

4.16 Bydd *VisitBritain* yn parhau i ddarparu cymorth cyrchfannau a marchnata drwy'r Rhaglen Twf Digwyddiadau Busnes a'u gwaith craidd ar gyfer digwyddiadau busnes. Ar wahân i ddarparu cymorth ariannol, bydd eu gweithgareddau craidd yn cynnwys:

a. Cynnal gweithdai ledled y DU a fydd yn rhannu arferion gorau ar wneud ceisiadau cydweithredol ar gyfer digwyddiadau. Bydd y gweithdai hyn yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau cyrchfannau llai sy'n dymuno tyfu eu proffil ar gyfer cynnal digwyddiadau busnes rhyngwladol ac ar gyfer datblygu perthnasoedd cydweithredol o fewn a rhwng cyrchfannau;

b. Datblygu offer i gyrchfannau eu defnyddio yn eu ceisiadau, cynnal ymchwil ad-hoc i'r farchnad digwyddiadau busnes yn y DU;

c. Parhau i gynnal y Gynhadledd flynyddol *MeetGB*, gan ddod â phrynwyr rhyngwladol o bob rhan o'r byd at ei gilydd i gwrdd â chyrchfannau'r DU;

d. Darparu cyngor a chymorth i gyrchfannau ar sut i wella cynnig bidio a chyrchfan i gynrychiolwyr tramor; a,

e. Gweithio gyda chyrchfannau i helpu i arddangos eu huchafbwyntiau rhanbarthol, rhwyddineb teithio, rhwyddineb mynediad a'u cynnig llety – nid yn unig i gynrychiolwyr ond hefyd i'w teuluoedd a'u cymdeithion teithio.

4.17 Gyda'i gilydd, bydd yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, *VisitBritain* a Bwrdd y Diwydiant Digwyddiadau yn hyrwyddo'r Rhaglen Twf Digwyddiadau Busnes, yn arbennig i'r cymdeithasau a'r prynwyr llai hynny sy'n llai tebygol o fod yn gyfarwydd â'r cynnig.

## Cyraeddiadau a Chroesawu

4.18 Ffactor pwysig yn y broses benderfynu i drefnwyr sy'n dewis ble i gynnal eu digwyddiad yw ansawdd y croeso y gallent hwy a'u cynrychiolwyr ei dderbyn.[20] Mae croeso yn cynnwys y broses y mae'n rhaid i gynrychiolwyr fynd drwyddi cyn gadael eu gwlad eu hunain (gan gynnwys ceisiadau fisa, os yw'n gymwys), cael profiad dymunol yn y maes awyr a'u profiad o'r dref neu'r ddinas sy'n cynnal.[21] Mae croeso yn arbennig o bwysig mewn marchnadoedd fel Tsieina, a gall gael effaith sylweddol ar sut y canfyddir y DU.[22]

---
[18] *Gwneud Penderfyniadau ynghylch Cyrchfannau, Cymhellion a Rhwystrau*, Ymchwil a Mewnwelediad Strategol, 2017 tud. 3
[19] Ymchwil Digwyddiadau Busnes: Gwariant Cynrychiolwyr ac Estyniadau Teithiau, *VisitBritain*, Tud. 2
[20] https://www.visitbritain.org/britains-welcome
[21] https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/Documents-Library/documents/foresight_159_-_nbi_welcome.pdf
[22] Gwneud Penderfyniadau am Gyrchfannau, Cymhellion a Rhwystrau, Ymchwil a Mewnwelediad Strategol a, 2017 tud. 11

4.19 Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu y gall mwyafrif helaeth y cynrychiolwyr digwyddiadau busnes yn y DU ddod i mewn heb fisa. Fodd bynnag, mae rhwyddineb cael fisa yn bwysig i ganfyddiad neu farn ar groeso'r wlad. Ymhlith sampl o ymatebwyr o 20 o wledydd, fe wnaeth 44% o'r rhai a holwyd ddatgan bod rhwyddineb gwneud cais am fisa yn elfen bwysig iawn o'r croeso, ac roedd y ffigur hwn yn uwch mewn rhai gwledydd sydd angen fisâu i ddod i'r DU.[24]

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud

4.20 Bydd Fisâu a Mewnfudo y DU yn darparu cymorth priodol am fisâu ar gyfer digwyddiadau cymwys sy'n bodloni'r meini prawf. Gallai'r cymorth perthnasol gynnwys sicrhau bod timau gweithredol a/neu Ganolfannau Ceisiadau Fisa yn ymwybodol o unrhyw adegau alw brig disgwyliedig, gan ddarparu man cyswllt i reolwyr digwyddiadau gysylltu ag ef ar faterion ynghylch fisâu a mynediad i lolfeydd premiwm mewn meysydd awyr.

4.21 Bydd Llu'r Ffiniau yn gweithio gyda Gweithredwyr Porthladdoedd i ddarparu cymorth priodol ar gyfer digwyddiadau sy'n bodloni'r meini prawf. Gallai hyn gynnwys cynnig gwasanaeth premiwm, ar sail cost fesul cynrychiolydd, a allai gynnwys gwasanaeth Llwybr Carlam mewn meysydd awyr a 'chroeso cynnes' wedi'i dargedu mewn porthladdoedd mynediad. Gallai'r croeso gynnwys baneri, posteri a desgiau gwybodaeth ar gyfer digwyddiadau.

4.22 O ganlyniad i newidiadau diweddar, mae ymwelwyr o Awstralia, Canada, Siapan, Seland Newydd, Singapôr, De Corea a'r Unol Daleithiau bellach yn gallu defnyddio gatiau ePasbort mewn porthladdoedd ledled y DU a rheolaethau cyfosodedig mewn cam sydd wedi'i gynllunio i gael effaith drawsnewidiol ar eu profiad ar y ffin. Mae'r newid hwn yn enghraifft wych o anfon y neges bod y DU yn agored ac yn groesawgar.[25]

## Capasiti a Chysylltedd

4.23 Ystyrir bod rhwyddineb mynediad yn un o'r ffactorau pwysicaf o ran dewis cyrchfannau, gyda 77% o'r trefnwyr yn ei roi yn y tair blaenoriaeth uchaf.[26] Mae Llundain yn sgorio'n uchel ar gyfer 'rhwyddineb mynediad', yn rhannol oherwydd argaeledd meysydd awyr. Mae Manceinion a Birmingham hefyd yn sgorio'n gymharol uchel, ond mae dinasoedd eraill yn aml yn cael eu hystyried yn 'lletchwith' i'w cyrraedd, sef un o'r prif resymau pam nad ydynt yn ennill mwy o ddigwyddiadau.[27] Mae mynediad rhwydd nid yn unig yn ymwneud â theithiau hedfan ond pa mor hawdd ydyw i deithio o'r maes awyr i'r ddinas a/neu'r lleoliad.[28]

[23] https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/Documents-Library/documents/foresight_159_-_nbi_welcome.pdf
[244] https://www.gov.uk/government/news/epassport-gates-eligibility-expansion-confirmed-for-june
[25] *Gwneud Penderfyniadau am Gyrchfannau, Cymhellion a Rhwystrau,* Ymchwil a Mewnwelediad Strategol, 2017 tud. 9
[26] *Gwneud Penderfyniadau am Gyrchfannau, Cymhellion a Rhwystrau,* Ymchwil a Mewnwelediad Strategol, 2017 tud. 16 ac 17
[27] *Gwneud Penderfyniadau am Gyrchfannau, Cymhellion a Rhwystrau,* Ymchwil a Mewnwelediad Strategol, 2017 tud. 9
[28] *Gwneud Penderfyniadau am Gyrchfannau, Cymhellion a Rhwystrau,* Ymchwil a Mewnwelediad Strategol, 2017 tud. 2
[29] *Gwneud Penderfyniadau am Gyrchfannau, Cymhellion a Rhwystrau,* Ymchwil a Mewnwelediad Strategol, 2017 tud. 17
[30] *Y Mynegai Maint a Graddfa ar gyfer Digwyddiadau yn 2015 (SASiE)*, AEV, AEO ac ESSA, 2017 Tud. 20

4.24 Addasrwydd lleoliadau yw'r ail ffactor pwysicaf wrth ddewis cyrchfan gyda 62% o'r trefnwyr yn ei roi yn y tair blaenoriaeth uchaf.[29] Mae hyn yn cynnwys asesu eu capasiti cyffredinol, nifer yr ystafelloedd ymneilltuo ac a yw'n gweddu i ddelwedd brand y digwyddiad. Mae'r DU wedi ei graddio'n dda ar yr agwedd hon ar wneud penderfyniadau gan y rhai hynny sy'n gwybod am ei dinasoedd, er bod barn nad oes gan ddinasoedd llai leoliadau digon mawr neu addas.[30] Fodd bynnag, nid yw asesu capasiti lleoliadau mor syml â chyfrif nifer a maint y lleoliadau. Un mater yw natur dymhorol, gyda 52% o arddangosfeydd yn digwydd ym misoedd Mawrth, Medi, Hydref a Thachwedd. I'r gwrthwyneb, roedd gan fisoedd Gorffennaf, Awst a Rhagfyr gyda'i gilydd 8% o arddangosfeydd.[31] Byddai hyn yn awgrymu bod nifer o fisoedd lle mae capasiti yn dynn, ond misoedd eraill lle mae capasiti i gynnal.

**Yr hyn y byddwn yn ei wneud**

4.25 Er bod cysylltedd y DU â gweddill y byd yn uchel, cydnabyddir y gall y daith ymlaen fod yn fwy cymhleth. Bydd yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gweithio gyda *VisitBritain* a'r Grŵp Cyflenwi Rheilffyrdd, a fydd yn hwyluso trafodaethau gyda chwmnïau gweithredu trenau, er mwyn archwilio ffyrdd o wella cysylltedd i ac o leoliadau digwyddiadau busnes ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig, fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â darparwyr teithio i ymchwilio a yw amseriad digwyddiadau targed yn cael ei fwydo i mewn i benderfyniadau ynghylch amserlenni a chynnal a chadw. Bydd hefyd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o gysylltedd presennol.

4.26 Byddwn yn mynnu bod y digwyddiadau hynny sy'n ceisio cymorth gan Lywodraeth y DU wedi cynnwys partneriaid trafnidiaeth yn ystod cam bidio'r digwyddiad, gyda phwyslais ar gyflenwi gwelliannau i'r 'filltir derfynol'[32] lle mae'n berthnasol.

4.27 Bydd *VisitEngland* yn cynnal ymarfer manwl i asesu pob lleoliad a all gynnal cyfarfod llawn ar gyfer o leiaf 400 o bobl yn Lloegr a bydd yn asesu argaeledd y lleoliadau hyn dros y blynyddoedd nesaf. Bydd hyn yn helpu Llywodraeth y DU i ddeall y capasiti presennol a bydd yn bwydo i mewn i'r broses gwneud penderfyniadau 'denu, tyfu a chreu'.

4.28 Byddwn yn asesu sut y gellir cefnogi canolfannau cynadledda ledled y DU yn ariannol i ddatblygu eu mynediad i fand eang ffibr llawn a byddwn yn adolygu'r cyfleoedd ar gyfer mabwysiadu 5G wrth i'r dechnoleg hon ddod ar gael ar lefel ehangach. Er mwyn cefnogi gallu'r sector i ddenu cynrychiolwyr rhyngwladol, bydd Llywodraeth y DU yn cynnig cynllun newydd gwerth £250,000 i wella cysylltedd band eang mewn canolfannau cynadledda. Disgwyliwn i'r manylion a'r meini prawf gael eu cyhoeddi yn 2019.

## Cydlynu gan y Llywodraeth

4.29 Er mwyn darparu'r cynnig cymorth a nodir yn y Cynllun Gweithredu hwn, mae Llywodraeth y DU yn cydnabod yr angen am ymagwedd gydlynol, effeithlon, traws-Lywodraethol. Mae hyn yn cynnwys piblinell, y mae *VisitBritain* yn ei datblygu, o ddigwyddiadau busnes rhyngwladol sy'n cynrychioli sectorau allweddol ac sy'n mynd i'r afael ag effaith economaidd, natur dymhorol a lledaeniad rhanbarthol. Bydd *VisitBritain* yn gweithio gyda'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Adrannau eraill Llywodraeth y DU i nodi rhestr wedi'i blaenoriaethu.

**Yr hyn y byddwn yn ei wneud**

4.30 Bydd yr Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn penodi un man cyswllt i gydlynu cynnig cymorth Llywodraeth y DU ar gyfer digwyddiadau. Byddant yn eistedd o fewn tîm twristiaeth yr Adran ac mae ganddynt flwch post pwrpasol, sef eventsupport@visitbritain.org. Byddant yn gyfrifol am gysylltu ag Adrannau eraill Llywodraeth y DU, VisitBritain a'r Gweinyddiaethau Datganoledig er mwyn cyflawni'r Cynllun Gweithredu hwn. Byddant hefyd yn gyfrifol am sefydlu gweithgorau ad-hoc traws-Whitehall er mwyn cynorthwyo gyda chyflwyno cynigion mawr.

4.31 Bydd yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Masnach Ryngwladol yn parhau i weithio'n agos gyda Bwrdd y Diwydiant Digwyddiadau, a'i gadeirydd newydd, Michael Hirst

OBE, i helpu i dyfu diwydiant digwyddiadau busnes ledled y DU. Rydym wedi diweddaru cylch gorchwyl y Bwrdd i gyd-fynd â chynnwys a chyflawniad y cynllun hwn.

4.32 Mae Bwrdd y Diwydiant Digwyddiadau wedi sefydlu dau weithgor sy'n edrych ar faterion penodol y mae'r Bwrdd wedi'u nodi fel rhai sy'n bwysig i'r diwydiant. Bydd y gweithgorau hyn yn adolygu materion ledled y DU ac yn ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar y canfyddiadau, fel y mae'n briodol:

a. **Capasiti**: Dan gadeiryddiaeth Chris Skeith, Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas y Trefnwyr Digwyddiadau, mae'r grŵp hwn yn asesu'r seilwaith sydd gennym yn y DU i gefnogi'r diwydiant – gan gynnwys capasiti lleoliadau, trafnidiaeth, digidol a buddsoddi; a,

b. **Thalent a sgiliau**: Dan gadeiryddiaeth Sarah Wright, yr ymgynghorydd digwyddiadau, mae'r grŵp hwn yn edrych ar sut y gall y diwydiant digwyddiadau barhau’n gystadleuol wrth recriwtio a chadw staff.

Disgwylir i'r gweithgorau gyflwyno eu hadroddiadau yn ddiweddarach eleni (2019). Fe gânt eu hystyried yn agos gan Fwrdd y Diwydiant Digwyddiadau a chan Lywodraeth y DU.

[31] Mae'r ‘filltir derfynol’ yn cyfeirio at y cysylltiad rhwng gorsaf drenau/maes awyr a’r ganolfan gynadle

# 5. Camau nesaf

5.1 Mae digwyddiadau busnes yn rhan bwysig o'n sector twristiaeth ac mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gefnogi ein diwydiant digwyddiadau busnes. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi cynnig cynhwysfawr, gan ddechrau ar unwaith, ar gyfer sut y bydd Llywodraeth y DU yn ychwanegu at y cymorth mae'n ei ddarparu i'r sector. Rydym am **greu** mwy o ddigwyddiadau busnes rhyngwladol, **denu** mwy o bobl i'r DU, **tyfu**'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd a **chadw** digwyddiadau sy'n ystyried symud i leoliadau eraill.

5.2 Bydd Bwrdd y Diwydiant Digwyddiadau yn helpu Llywodraeth y DU i gyflenwi'r cynllun trwy ddarparu cyngor a chymorth parhaus a thrwy gynnal cyfarfodydd bord gron o fewn y sector er mwyn casglu gwybodaeth. Fel y nodir yn ei gylch gorchwyl newydd, bydd y Bwrdd yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am dwristiaeth, gan amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn, ei asesiad o sut mae'r Cynllun Gweithredu'n cael ei weithredu ac yn nodi unrhyw argymhellion.

5.3 Nid yw'r Cynllun Gweithredu hwn yn derfynol. Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn gwerthuso'n barhaus yr effaith rydym yn ei chael, er mwyn mireinio ein hymagwedd a gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'n hadnoddau.

Yr Adran dros Ddigidol,
Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
4ydd Llawr, 100 Parliament Street
Llundain SW1A 2BQ
**www.gov.uk/dcms**
Mehefin 2019